Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Dau) – Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Ariannol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2722A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trefniadau llywodraethu 7

Rheoli adnoddau ariannol 19

Atodiadau

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i argymhelliad yr archwiliad 24

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam dau o waith asesu strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2021 (cam un) drefniadau cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd a sut mae'r rhain yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol.

2 Roedd pandemig COVID-19 yn gofyn i gyrff y GIG addasu yn gyflym eu trefniadau llywodraethu corfforaethol a'u trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn sicrhau y cymerwyd camau amserol i ymateb i'r cynnydd yn y galw brys oherwydd COVID-19 ac i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Ystyriodd ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2020 y trefniadau interim hyn ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

3 Mae cyrff y GIG wedi parhau i ymateb i'r heriau cyfredol a gyflwynir gan COVID-19, gan ddechrau datblygu cynlluniau hefyd i ailgyflwyno ac adfer y gwasanaethau y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Felly, cynlluniwyd ein gwaith ar asesiad strwythuredig 2021 yng nghyd-destun yr ymateb cyfredol i'r pandemig, gan sicrhau dull pragmatig addas o helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a chan leihau'r effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i COVID-19.

4 Ystyriodd cam dau ein hasesiad strwythuredig ar gyfer 2021 sut mae trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol wedi addasu yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn benodol, rydym wedi darparu trosolwg o drefniadau llacio y Bwrdd Iechyd ar gyfer ymyriad wedi'i dargedu a'r dull y mae'n ei gymryd yn awr.

5 Mae pwyslais allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol, er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus. Rydym hefyd wedi ystyried sut y mae'r busnes a ohiriwyd yn 2020 wedi ei adfer a sut mae'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig yn llywio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu da a sicrhau gwerth am arian. Rydym hefyd wedi ceisio cael trosolwg o waith craffu'r Bwrdd ar y broses o ddatblygu a chyflawni Cynllun Blynyddol 2021-22 y Bwrdd Iechyd.

6 Rydym wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o'i gymharu ag unrhyw feysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

7 Yn gyffredinol, canfuom fod **y Bwrdd Iechyd, yng nghyd-destun ymdrin â phwysau sylweddol ar wasanaethau, wedi parhau i ddatblygu ei drefniadau llywodraethu, cynllunio gwasanaethau a monitro ariannol. Mae'r ymateb cychwynnol i fframwaith Ymyriad wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarnhaol a bydd yn bwysig defnyddio hwn i ddangos y cynnydd o'i gymharu â nifer o heriau hirsefydlog. Pwyslais uniongyrchol y Bwrdd yw rheoli pwysau'r gwasanaeth yn effeithiol ar draws pob adran a sicrhau bod ei gynlluniau strategol ac adfer ehangach yn gyson â'r heriau adfer dybryd hynny, gan lywio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.**

8 Yn sgil llacio'r mesurau arbennig, mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn cyfrifoldeb yn dda wrth ymateb i ymyriad wedi'i dargedu, gan fabwysiadu'r hyn y mae'n ei alw'n ddull gwella wedi'i dargedu. Mae wedi cynnal hunanasesiad cytbwys ond beirniadol o'i gymharu â'r fframwaith aeddfedrwydd sy'n sail ar gyfer sbarduno gwelliannau. Mae cysondeb da rhwng dull y Bwrdd Iechyd o gyflawni ymyriad wedi'i dargedu a'i waith cynllunio a datblygu strategaeth ehangach, a dylai hyn helpu i sicrhau'r gwelliannau a ddymunir.

9 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n defnyddio hunanadolygiadau'n effeithiol i gefnogi'r prosesau llywodraethu, rheoli risgiau a darparu sicrwydd o ran newidiadau. Mae'r trefniadau newydd yn cynnwys strwythurau diwygiedig ar gyfer cyflawni pwyllgorau a'r weithrediaeth, dulliau o reoli risgiau sy'n datblygu a gwelliannau i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y rhain yn cymryd amser i'w hymwreiddio a bydd angen eu rheoli ochr yn ochr â rhai risgiau penodol hefyd megis trosiant aelodau annibynnol. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ddigon gwybodus ac mae hyn yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau. Ceir pwyslais da ar wasanaethau acíwt, ac ar wella'r sylw a roddir i wasanaethau gofal sylfaenol. Ar ôl i'r strategaethau sefydliadol a chlinigol gael eu cymeradwyo, bydd angen adlewyrchu'r cynnydd o'i gymharu â'r blaenoriaethau a'r amcanion sydd mewn adroddiadau sicrwydd, boed yn adroddiadau perfformiad neu'n waith monitro cynlluniau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau ymhellach ei drefniadau goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae hyn yn enwedig o bwysig oherwydd y straen parhaus ar wasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac acíwt a allai gyflwyno risgiau ansawdd a diogelwch ychwanegol.

10 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio i adfer gwasanaethau, ond gallai effaith barhaus COVID-19, pwysau ehangach ar ofal heb ei drefnu, a chyfyngiadau mewnol ac allanol ar gapasiti arwain at broses adfer gwasanaethau sy'n hirfaith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio ar gyfer canolfannau triniaeth rhanbarthol ychwanegol, a ddylai, os cânt eu datblygu a'u gweithredu'n dda, helpu i gefnogi rhywfaint ar y gwaith o neilltuo gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio, gan ddarparu capasiti gwasanaeth ychwanegol.

11 Ni fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddwy brif ddyletswydd ariannol o ran cael cynllun tymor canolig y gellir ei gymeradwyo a chyflawni cydbwysedd ariannol dros dair blynedd. Fodd bynnag, ar gyfer 2020-21, sicrhaodd fod gwariant o fewn ei

ddyraniad, er bod hynny â chymorth ariannol ychwanegol. Yn ystod y 12 mis diwethaf, bu pwyslais da ar ddysgu o drefniadau llywodraethu ariannol COVID-19 a gweithredu gwelliannau. Mae cynlluniau ariannol yn gwella ac mae gwell cysylltiad rhwng y camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Blynyddol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni nhw. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau capasiti ychwanegol a sbarduno gwelliannau effeithlonrwydd yn y gwasanaethau presennol. Mewn rhai meysydd, bydd angen cyfalaf ariannol ychwanegol ar hyn, ond ar hyn o bryd, gallai lefel y cyllid cyfalaf effeithio ar adferiad ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

# Argymhellion

12 Rydym wedi gwneud un argymhelliad yn **Arddangosyn 1** sy'n deillio o'r archwiliad hwn. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i hyn yn **Atodiad 1**. Fel yr amlygwyd ym manylion yr adroddiad hwn, erys argymhellion o adroddiadau asesiadau strwythuredig y blynyddoedd blaenorol y gwneir cynnydd arnynt o hyd. Byddwn yn parhau i ddilyn y cynnydd o'i gymharu â'r rhain yn rhan o raglen waith barhaus yn y Bwrdd Iechyd.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Adroddiadau ariannol**<br>A1 Er mwyn cefnogi adferiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd wneud y defnydd gorau o'i adnoddau ei hun. Er bod adroddiadau sicrwydd yn darparu gwybodaeth dda am gostau, arbedion a rhagolygon, prin yw'r wybodaeth sy'n dangos effeithlonrwydd ariannol gwasanaethau. **Sicrhau pwyslais gwell ar effeithlonrwydd ariannol gwasanaethau mewn adroddiadau cyllid**. Gellid cyflawni hyn drwy adroddiadau cyfnodol neu thematig ar effeithlonrwydd ariannol sy'n mynd at wraidd y mater, drwy adrodd ar gynnydd mewn gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, neu'n rhan o adroddiadau ariannol arferol. |

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

13 Ystyriodd ein gwaith asesu strwythuredig drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd wrth iddo barhau i ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig.

14 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud dechrau addawol a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb yn dda o ran gwneud gwelliannau i fynd i'r afael ag ymyriad wedi'i dargedu. Mae trefniadau llywodraethu a rheoli risgiau yn gwella, fel y mae'r dull o gefnogi newid a gwelliant i'r gwasanaethau. Mae pwysau parhaus sylweddol ac ôl-groniadau o restrau aros yn debygol o gyflwyno heriau am rai blynyddoedd.**

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Ymateb i'r fframwaith ymyriad wedi'i dargedu

15 Canfuom, **er ei fod ar gam cynnar, fod y Bwrdd Iechyd, yn derbyn cyfrifoldeb yn dda dros y fframwaith ymyriad wedi'i dargedu a'r gwelliannau cysylltiedig y mae'n ceisio eu hysgogi**.

16 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (ar y pryd) y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael ei lacio i ymyriad wedi'i dargedu, gan ei gefnogi ag adnoddau ariannol ychwanegol gwerth cyfanswm o £297 miliwn ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a hanner sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2024. Ym mis Mawrth 2021, nododd Llywodraeth Cymru ei disgwyliad ar gyfer gwelliant[1] mewn pedwar maes allweddol:

- Iechyd Meddwl (oedolion a phlant)
- Strategaeth, cynllunio a pherfformiad
- Arweinyddiaeth (gan gynnwys llywodraethu, trawsnewid a diwylliant)
- Ymgysylltu (cleifion, y cyhoedd, staff a phartneriaid)

17 Ym mis Mai 2021, nododd y Bwrdd ddull cychwynnol o ymateb i ofynion ymyriad wedi'i dargedu ac ymgysylltodd â phartneriaid mewnol ac allanol yn rhan o'r broses hon. Mae'r dull o 'wella' ymyriad wedi'i dargedu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar asesiad o aeddfedrwydd, ac fe'i hategir gan gynlluniau gwella sylfaenol. Hyd yma, mae hunanasesiad y Bwrdd Iechyd wedi bod yn werthusiad gonest a beirniadol o'i sefyllfa bresennol ac felly mae'n darparu llwyfan dda i symud ymlaen oddi arni. Er enghraifft, mae'r hunanasesiad mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd meddwl yn amlygu'r heriau a'r pryderon sy'n parhau yn y gwasanaethau hynny.

[1] Llywodraeth Cymru, Ymyriad wedi'i Dargedu: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021

18 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno strwythur da ar gyfer sbarduno gwelliant. Caiff hwn ei gydgysylltu gan Grŵp Llywio Gwelliant wedi'i Dargedu a ategir gan Grŵp Tystiolaeth a Grŵp Canlyniadau, sy'n cael eu cefnogi gan bedwar is-grŵp yn eu tro. Mae aelodaeth pob is-grŵp yn cynnwys yr uwch-swyddog gweithredol cyfrifol sy'n goruchwylio o aelod annibynnol o'r bwrdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn casglu tystiolaeth i helpu i ddangos cynnydd ac mae wedi cyflwyno'r Sefydliad Llywodraethu Da i helpu i ddarparu cymorth annibynnol ychwanegol. Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar y cynnydd o ran Ymyriad wedi'i Dargedu ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

19 Yn gyffredinol, mae gwell cysondeb rhwng cynlluniau gwella ymyriadau wedi'u targedu a'r Cynllun Blynyddol sefydliadol ehangach nag a ganfuwyd gennym pan oedd y Bwrdd Iechyd mewn mesurau arbennig. Roedd synnwyr cyffredinol gan y rhai a gyfwelwyd gennym fod y Bwrdd Iechyd yn derbyn cyfrifoldeb digonol am y broses wella, er y cydnabyddid y byddai'r gwelliannau angenrheidiol yn cymryd amser i'w cyflawni'n effeithiol.

## Trefniadau llywodraethu'r Bwrdd a phwyllgorau

20 Canfuom fod **y Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n briodol, gan ddefnyddio adolygiad gwrthrychol o'r trefniadau i sbarduno gwelliannau llywodraethu. Dylai'r newidiadau arfaethedig i strwythurau pwyllgorau a phrosesau llywodraethu ehangach gryfhau'r trefniadau, ond maent yn debygol o gymryd amser i'w hymwreiddio.**

21 Fel y nodir yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, dychwelodd trefniadau llywodraethu o'r trefniadau gorchymyn a rheoli brys dros dro a'r Cabinet i drefniadau cyn COVID-19 mis Mai 2020, er eu bod yn parhau i ddefnyddio fideogynadledda. Ym mis Tachwedd 2020, galwodd y Bwrdd ar y Cabinet[2] mewn ymateb i alw sylweddol oherwydd ail don y pandemig tan fis Ebrill 2021. Cafodd Cabinet COVID-19 ei adfer unwaith eto ym mis Medi 2021 ar gais y tîm Gweithredol. Cymeradwywyd y newidiadau hyn drwy 'weithredoedd y Cadeirydd' ac fe'u cyflëwyd yn briodol i gyfarfod canlynol y Bwrdd ar 23 Medi 2021. Mae'r Bwrdd Iechyd yn addasu ei drefniadau llywodraethu wrth i natur y pandemig a phwysau ar wasanaethau ehangach ddatblygu. Mae enghraifft o hyn yn cynnwys adolygiad cyfredol y cylch gorchwyl ar gyfer Cabinet COVID-19, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'w ddiben ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

22 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddysgu gwersi o'r pandemig ac mae wedi adolygu ei broses cynllunio ac ymateb i ddigwyddiadau difrifol, ei drefniadau 'gorchymyn a rheoli' llywodraethu COVID-19 interim, a'i drefniadau llywodraethu

[2] Diben y Cabinet yw bod yn gyfrifol am oruchwylio materion strategol lefel uchel allweddol sy'n ymwneud ag ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argyfwng iechyd a gyflwynir gan bandemig COVID-19. Mae aelodaeth y Cabinet yn cynnwys Cadeirydd y Bwrdd Iechyd, yr Is-gadeirydd, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Weithredwr. Mae swyddogion eraill yn bresennol.

ariannol ‘COVID-19’ (Gweler **Arddangosyn 2**, **Argymhelliad 1, 2020**). Mae’r gwersi a nodwyd yn cynnwys mesurau atal heintiau, cefnogi staff er mwyn galluogi adleoliadau hyblyg os oes angen, addasu i gleifion allanol rhithwir a chefnogi ymchwil a datblygu. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd wedi comisiynu gwerthusiad allanol ychwanegol o’r trefniadau Cynllunio ar gyfer Argyfwng, Cadernid ac Adfer, sy’n parhau i fynd rhagddo ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn.

23 Mae ein harsylwadau o wahanol gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau yn 2021 yn dangos eu bod yn cael eu cadeirio’n dda, eu bod yn dilyn gweithdrefnau disgwyliedig ac yn cael eu cefnogi gan wybodaeth reoli briodol yn gyffredinol, er mwyn llywio’r broses o wneud penderfyniadau. Mae’r defnydd o dechnoleg a chwrteisi o amgylch cyfarfodydd rhithwir wedi eu hymwreiddio’n dda.

24 Mae agendâu cyfarfodydd y Bwrdd wedi eu cynllunio’n dda, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar feysydd risgiau allweddol a meysydd i’w gwella. Mae cyfraniadau Aelodau Annibynnol yn gytbwys, yn gefnogol ac yn heriol yn ôl yr angen. Mae’r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod agendâu, cofnodion a phapurau y Bwrdd a’r pwyllgorau ar gael ymlaen llaw, ac mae’n adrodd toriad i’r pwyllgor archwilio os caiff papurau eu cyhoeddi’n hwyr.

25 Mae gwybodaeth perfformiad ynghylch gwasanaethau acíwt a rhai gwasanaethau ehangach yn adroddiad ansawdd a pherfformiad integredig y Bwrdd yn galluogi gwaith craffu ac yn darparu sicrwydd ar gamau gweithredu er mwyn cefnogi gwelliant. Mae’r adroddiad diweddar i’r Bwrdd ar wasanaethau gofal sylfaenol ym mis Hydref yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf ddefnyddiol am y camau a gymerir i fynd i’r afael â risgiau i wasanaethau. Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd angen canolbwyntio’n fwy rheolaidd ar berfformiad iechyd Sylfaenol, cymunedol a pherfformiad iechyd y boblogaeth. Hefyd, gwnaethom argymell y llynedd bod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau ei gynlluniau a’i fuddsoddiadau. Mae’r gwaith yn y maes hwn yn parhau i fynd rhagddo (Gweler **Arddangosyn 2**, **Argymhelliad 3, 2020**).

26 Er bod heriau o hyd o ran hygyrchedd cyhoeddus pwyllgorau, mae natur cyfarfodydd rhithwir yn dechrau creu cyfleoedd. Er enghraifft, mae uwch-reolwyr gweithredol ac arweinwyr mewn ysbytai a safleoedd cymunedol na fyddent wedi gallu mynd i gyfarfod yn bersonol yn gallu ymuno yn rhithwir. Mae hyn yn rhoi mwy o fewnwelediad a dyfnder dealltwriaeth o’r gwasanaethau i aelodau’r bwrdd a’r pwyllgor pan fo angen.

27 Dros y 12 i 18 mis diwethaf, rydym wedi gweld agendâu rhai pwyllgorau’n tyfu, gyda rhywfaint o orgyffwrdd diangen ar yr agendâu, yn enwedig rhwng y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cynnal adolygiad o’i drefniadau llywodraethu pwyllgorau gyda’r nod o:

- gydbwyso’r pwyslais ar strategaeth, diwylliant ac atebolrwydd;
- gwella’r llinell atebolrwydd strwythurol rhwng grwpiau sylfaenol, y tîm gweithredol, pwyllgorau a’r Bwrdd, a gwella atebolrwydd a llifau sicrwydd yn gyffredinol o’r ‘llawr i’r Bwrdd’;

- gwella’r pwyslais ar yr agenda pobl a thrawsnewid.

28 Nododd yr adolygiad rai heriau penodol a chynigiodd rai newidiadau i strwythur y pwyllgorau[3] a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021, ac ar adeg ysgrifennu, maent yn cael eu cyflwyno. Mae’r newidiadau strwythurol i’r pwyllgorau yn ymddangos yn rhesymegol a dylent helpu i leihau’r risg o ddyblygu agendâu ar draws pwyllgorau. Fodd bynnag, mae’n rhy gynnar i bennu effeithiolrwydd y trefniadau diwygiedig, a fydd yn cymryd amser i’w hymwreiddio.

29 Ar hyn o bryd, mae’r Bwrdd Iechyd yn ceisio recriwtio tri Aelod Annibynnol newydd, ac mae’n bosibl y bydd dau neu dri Aelod Annibynnol arall yn gadael ar ddiwedd 2021-22, gan ddibynnu ar y broses ailbenodi. Bydd y trosiant hwn yn creu risgiau y bydd angen eu rheoli mewn cysylltiad â phrofiad a gwybodaeth yr aelodaeth annibynnol a pharhad cadeiryddiaeth y pwyllgorau. Ar yr un pryd, mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau â’i sesiynau grŵp datblygu Bwrdd. Bydd angen i weithgareddau datblygu’r Bwrdd ystyried y newidiadau i’r aelodaeth annibynnol.

**Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol sy’n ymwneud ag adran yr adroddiad hwn**

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| **A1 (2020)**<br>Cynnal ymarfer dysgu cyflym ar lywodraethu COVID-19 er mwyn llywio ac addasu cynlluniau cadernid ac ymateb brys, fel y gellir eu gweithredu os bydd eu hangen dros y misoedd nesaf .<br>Dylai hyn gynnwys ystyried:<br>• unrhyw angen i addasu dros dro y Cynllun Cadw a Dirprwyo er mwyn sicrhau bod yr awdurdod ariannol a’r awdurdod gwneud penderfyniadau yn gyson;<br>• y dull rheoli risgiau a fabwysiadwyd yn rhan o drefniadau gorchymyn a rheoli a llif gwaith. | **Cwblhawyd**<br>Cwblhawyd adolygiad mewnol o’r Fframwaith Gorchymyn a Rheoli gan yr arweinydd Cynllunio, Cadernid ac Adfer Brys ac aed ag ef drwy’r Fforwm Argyfyngau Sifil Posibl. Mae adolygiad allanol ychwanegol yn parhau i fynd rhagddo.<br>Mae’r Bwrdd wedi cymeradwyo’r strwythur llywodraethu presennol ar gyfer yr ymateb i COVID-19.<br>Cafodd y Cynllun Atal Partneriaethau ac Ymateb ei adolygu a’i adnewyddu ym mis Mehefin 2021 fel sy’n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Goruchwylir gweithrediad parhaus y cynllun gan Gadeiryddion Grŵp Atal ac Arolygu y chwe awdurdod lleol ac fe’u hadroddir i’r Grŵp Cydgysylltu Rhanbarthol. |

[3] Mae’r newidiadau’n cynnwys diddymu’r Pwyllgor Gwybodaeth Ddigidol a Llywodraethu, adnewyddu cylch gorchwyl pwyllgorau a chreu Grwpiau Cyflawni Gweithredol a thanategu strwythurau grwpiau.

| Argymhelliad | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| | Cymeradwywyd adnewyddu’r Strategaeth Rheoli Risgiau ym mis Gorffennaf 2021 gan wella’r pwyslais ar barodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg yn ystod amgylchiadau eithriadol. Adeiladodd y newidiadau hyn ar adolygiad mwy sylweddol o’r strategaeth rheoli risgiau ym mis Hydref 2020.<br>Mae Cynllun Cadw a Dirprwyo mewn Argyfwng wedi ei ddatblygu ac roedd i’w gyflwyno i Bwyllgor Archwilio Medi 2021, cyn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. |
| **A3 (2020)**<br>Sicrhau bod effeithiau a chanlyniadau a gyflawnir o ganlyniad i gyflawni camau gweithredu yn cael eu mynegi’n briodol mewn adroddiadau monitro cynlluniau chwarterol ac adroddiadau monitro cynlluniau blynyddol. Efallai y bydd angen cryfhau prosesau dadansoddi buddion busnes sylfaenol. | **Mae’r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Mae Cynllun Blynyddol 2021-22 yn ceisio sicrhau bod yr holl gamau gweithredu’n cael eu mynegi’n briodol yn unol ag egwyddorion CAMPUS. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno canllawiau manylach a thempled cynllunio sy’n nodi’r wybodaeth ategol ofynnol ar gyfer pob cam gweithredu y cytunwyd arno ac mae’n cynnwys gofyniad i ystyried canlyniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. |

## Cynllunio ar gyfer adferiad[4]

30 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn datblygu dull ‘chwe phwynt’ rhesymegol ar gyfer adfer gwasanaethau gofal wedi’u cynllunio a’i fod yn cryfhau ei bwyslais datblygu sefydliadol drwy ei raglen ‘Cryfach Gyda’n Gilydd’ helaeth. Fodd bynnag, gallai risgiau a materion, gan gynnwys effaith barhaus COVID-19, pwysau gofal heb ei drefnu, a chyfyngiadau ar gapasiti arwain at ymdrech hirfaith i adfer gwasanaethau dros nifer o flynyddoedd.**

31 Er nad yw’n unigryw i’r Bwrdd Iechyd, mae graddau’r her o adfer yn sylweddol. Mae’r pandemig, ochr yn ochr â phwysau gofal heb ei drefnu sylweddol, yn parhau

[4] Mae’n ofynnol i gyrff y GIG gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Cafodd y broses Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023 ei gohirio gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2020, er mwyn caniatáu i gyrff y GIG ganolbwyntio ar ymateb i bandemig COVID-19. Yn lle hynny, roedd yn ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno cynlluniau chwarterol yn ystod 2020-21 yn ogystal â pharatoi cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 erbyn 31 Mawrth 2021.

i effeithio ar gapasiti'r gwasanaethau sydd ar gael a chynhyrchiant gwasanaethau ehangach.

32 O ran gofal wedi'i gynllunio, mae dros 50,000 o gleifion bellach sydd wedi bod yn aros am fwy na 36 wythnos[5]. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi paratoi cynllun adfer 'chwe phwynt' ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys datblygu model canolfan ddiagnostig a thriniaeth. Mae'r dull chwe phwynt yn rhesymegol, er ein bod yn disgwyl y bydd adferiad yn heriol iawn. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu refeniw ychwanegol sylweddol i gefnogi adferiad, ond deallwn mai cyfyngedig yw'r cyllid cyfalaf sydd ar gael. O ganlyniad i hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio'r holl ddewisiadau posibl er mwyn cael atebion sy'n seiliedig ar refeniw. Gallai natur y cyllid refeniw a'r angen i gyflymu'r ymdrechion i adfer arwain y Bwrdd Iechyd at ragor o ddibyniaeth ar ddarparwyr o'r tu allan i Gymru i ddarparu gwasanaethau ar gontractau mewnol ac allanol, a gwasanaethau a reolir yn llawn[6].

33 Er y bydd contractio ychwanegol yn cynorthwyo'r broses adfer, mae'r gwasanaeth craidd a chynhyrchiant y gweithlu yn hanfodol, ond gallai fod yn heriol i'w wella. Mae cydnabyddiaeth glir yn y Bwrdd Iechyd o effaith y pandemig ar staff a'r pwysau sydd o'n blaenau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau rhaglen 'Cryfach Gyda'n Gilydd'. Rhaglen datblygu sefydliadau mawr sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd, perfformiad, cynhyrchiant, ymgysylltu a diwylliant yw hon, ac mae'n ymgysylltu yn uniongyrchol â mwy na 1,800 o staff.

34 Bydd adferiad cynaliadwy, ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, yn gofyn am ddulliau cryfach o integreiddio gwasanaethau ar draws safleoedd acíwt, ac am integreiddio gwasanaethau rhwng gwasanaethau acíwt a chymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio hybu proses integreiddio gwasanaethau o'r fath am nifer o flynyddoedd, ond gyda llwyddiant cymysg. Ers sawl blwyddyn, rydym wedi nodi pryderon ynghylch y capasiti sydd ar gael i gefnogi newid a thrawsnewid. Yn rhan o'r adolygiad diweddar o drefniadau llywodraethu, bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu strwythurau rhaglenni a thrawsnewid cryfach. Mae tri Grŵp Cyflawni Gweithredol newydd a fydd yn cefnogi'r broses o ddatblygu strategaethau ac yn hybu'r agenda drawsnewid a grŵp cynllunio a strategaeth trawsbynciol. Yn sail i'r grwpiau strategol hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno grwpiau cyflawni tactegol sydd wedi eu cynllunio i gyflawni trawsnewidiad a gwelliant. Mae hwn yn gam cadarnhaol ymlaen.

35 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cryfhau'r capasiti i gefnogi newid. Mae wedi penodi Cyfarwyddwr Trawsnewid a Gwelliant yn ddiweddar, ac mae'n cryfhau ei gapasiti i gydgysylltu rhaglenni, i fodelu yn ddadansoddol, ac ar gyfer cymorth rheoli rhaglenni a phrosiectau (Gweler **Arddangosyn 3**, **Argymhelliad 3, 2019**). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ceisio ymgorffori'n ffurfiol 'gofal iechyd sy'n seiliedig ar

[5] Ym mis Gorffennaf 2021 – data a gafwyd o Stats Cymru.

[6] Mae gwasanaethau a reolir yn llawn yn ymwneud â phecyn cyflawn lle gallai darparwr allanol ddatblygu cyfleusterau dros dro newydd yn ardal y Bwrdd Iechyd drwy ddarparu capasiti theatr ychwanegol a'r gweithlu angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau yn llawn.

werth[7]' a 'getting it right first time[8]' a dulliau modelu data yn ei strwythur newid yn rhan o bortffolio Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol (Gweler **Arddangosyn 3**, **Argymhelliad 4, 2019**). Os cânt eu cyflwyno'n effeithiol, mae'r dulliau hyn yn creu'r potensial o wella'r canlyniadau i gleifion ac yn rhyddhau capasiti i gefnogi cleifion sy'n aros am driniaeth yn well.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ddibynnu ar reolaeth interim mewn rhai meysydd pwysig gan gynnwys iechyd meddwl, gofal eilaidd, a gwella gofal wedi'i gynllunio. Er bod ystyriaethau gwerth am arian posibl sy'n ymwneud â phenodiadau interim, mae'n bosibl mai'r mater mwy yw effaith trosi neu 'gorddi' staff dros dro, i lenwi swyddi allweddol yn aml. Gallai hyn effeithio ar barhad rhaglenni newid pwysig a pharhad arweinwyr gwasanaethau acíwt (Gweler **Arddangosyn 3**, **Argymhellion 5 a 6, 2019**).

37 Er bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu capasiti ychwanegol i gefnogi gwelliant, gallai amrywiaeth o ffactorau a risgiau effeithio ar y broses o adfer rhestrau aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- lefelau COVID-19 gwaeth yn y gymuned, y galw am ofal heb ei drefnu a phwysau'r gaeaf, yn ogystal â chymhlethdod cynyddol y cyflyrau.
- y graddau y gall y gweithlu weithio y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir fel arfer i gefnogi capasiti mewnol ychwanegol.
- y gallu i wella effeithlonrwydd gwasanaethau.
- buddsoddiad cyfalaf annigonol sy'n arwain at ddiffyg capasiti ffisegol i ehangu gwasanaethau neu i gywiro'r ystad bresennol er mwyn gwella'r llif cleifion.
- y cyllid refeniw y mae angen ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol. Gallai hyn rwystro'r dewisiadau adfer ar gyfer nifer o flynyddoedd a gallai gyfyngu ar y graddau y gellir defnyddio'r cyllid yn effeithiol.
- cystadleuaeth â'r GIG ehangach ar gyfer:
  - darparwyr gwasanaethau ar gontractau mewnol ac allanol;
  - theatrau modiwlaidd a/neu gyfleusterau gofal dros dro; a
  - staff meddygol a nyrsio, a allai gyfyngu ar y staff locwm ac asiantaeth sydd ar gael, gan effeithio ar y gallu i recriwtio.

38 Mae'r Cynllun Blynyddol yn ymgorffori pwyslais cryf yn briodol ar gamau adfer gwasanaethau, ac mae'n ymateb i'r risgiau uchod, ond bydd rhai o'r risgiau hynny'n cyflwyno her strategol tymor hwy. Yn ogystal â dod â pherfformiad gwasanaethau yn ei ôl, bydd angen i'r camau adfer helpu i lywio gwasanaethau fel eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn adnewyddu ei

[7] Nod gofal sy'n seiliedig ar werth yw manteisio i'r eithaf ar werth gofal iechyd a lleihau amrywiadau di-sail.

[8] Rhaglen genedlaethol sydd wedi ei chynllunio i wella'r ffordd y caiff gofal cleifion ei drin drwy ddadansoddi a meincnodi er mwyn cefnogi newid mewn gwasanaethau yw Getting it right first time.

strategaeth sefydliadol, yn datblygu cynllun gwasanaethau clinigol, ac yn paratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd 2022-2025. Ar hyn o bryd, mae'n ymgysylltu'n ehangach i gefnogi'r datblygiadau hyn (Gweler **Arddangosyn 3**, **Argymhellion 1 a 2, 2019 ac Argymhelliad 2, 2020**).

**Arddangosyn 3: cynnydd a wnaed o ran argymhellion y flwyddyn flaenorol sy'n ymwneud ag adran yr adroddiad hwn**

| Argymhelliad (blwyddyn) | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **A1 (2019)**<br>Sicrhau bod gwaith i ddatblygu strategaeth gwasanaethau clinigol yn cael ei gyflawni yn ôl amserlenni cynlluniedig a'i fod yn cynnwys adolygiad sylfaenol o ffurfiau a lleoliadau gwasanaethau clinigol ar draws pob un o'r tri phrif safle ysbyty. (Ceir rhagor o fanylion am yr argymhelliad hwn yn y ddolen adroddiad uchod). | **Mae'r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Adolygwyd datblygiad y Strategaeth Glinigol ers penodiad y Prif Weithredwr newydd. Cymeradwywyd y dull hwn gan y Bwrdd, a bydd yn arwain at ffordd newydd o feddwl am strategaeth gwasanaethau clinigol a fydd yn tanategu strategaeth adnewyddedig Byw'n Iach, Aros yn Iach.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'r camau nesaf, gan gynnwys sefydlu senedd glinigol, gan ddefnyddio sylwadau a geir wrth ymgysylltu ar y strategaeth a chanfyddiadau o'r gwaith Cryfach Gyda'n Gilydd sydd ar y gweill. Nod y Bwrdd Iechyd yw cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2022. |
| **A2 (2019)**<br>Sicrhau bod arweinyddiaeth ac ymgysylltiad clinigol yn elfennau annatod gan eu bod yn rhan o'r broses o ddatblygu strategaeth glinigol a rhaglenni newid cysylltiedig. | **Mae'r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth adnewyddu strategaeth 'Byw'n Iach, Aros yn Iach', a'r cynllun gwasanaethau clinigol. |

| Argymhelliad (blwyddyn) | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **A3 (2019)** Cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth glinigol yn effeithiol, cyflwyno strwythur clir ar gyfer rheoli rhaglenni, rhaglenni newid a methodoleg rheoli rhaglenni. Dylai hyn ymgorffori'r strwythur canolog a chorfforaethol angenrheidiol yn ogystal ag adnoddau i wella'r capasiti i reoli newid ar lefel is-adran. | **Mae'r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Cytunwyd ar ddull newydd o wella a thrawsnewid ar ôl cydnabod yr angen i gynyddu buddsoddiad, pwyslais, a chysondeb y dulliau gwella presennol. Mae hyn bellach yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol. Penodwyd Cyfarwyddwr Trawsnewid a bydd yn arwain dull y Swyddfa Cefnogi Trawsnewid gan ddefnyddio adnodd canolog drwy fodel partner busnes. Mae pecyn cymorth Gwella Ansawdd yn cael ei ddatblygu i sbarduno cydlyniant a lledaeniad dysg, a bydd yn cynnwys dysgu o COVID-19. Mae rhai penodiadau yn y strwythur newid wedi eu cwblhau a bydd y trefniadau'n parhau i ddatblygu drwy weddill y flwyddyn ariannol hon. |
| **A4 (2019)**<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ffurf a swyddogaeth y tîm gweithredol er mwyn:<br>• sicrhau bod cyfrifoldeb clir am wasanaethau gofal acíwt ar lefel Weithredol;<br>• sicrhau bod gan arweinwyr rhaglenni ar gyfer trawsnewid gwasanaethau gyfrifoldeb neu gyfrifoldebau clir ar lefel y cyfarwyddwyr gweithredol; a<br>• chanolbwyntio'n fwy ar strategaeth, ar gynlluniau sefydliadol, ac ar y capasiti a'r gallu i gyflawni'r newid angenrheidiol yn y sefydliad. | **Mae'r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Dechreuodd y Prif Weithredwr newydd ei swydd yn y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2021. Ers hynny, mae adolygiad o bortffolios Gweithredol yn galluogi gwelliannau o ran cydbwysedd portffolios a gwell cysondeb o ran rhai swyddogaethau corfforaethol allweddol.<br>Ar hyn o bryd, mae'r sefydliad yn gwella ei arweinyddiaeth yn rhan o raglen Gwelliant wedi'i Dargedu. Mae'n cynnal ymarfer 'gwrando' a elwir yn Gam Darganfod Cryfach Gyda'n Gilydd. Mae arwyddion cynnar o'r ymarfer hwnnw a'r sylwadau yn awgrymu bod angen gwaith mwy helaeth i wneud y gorau o fodel gweithredu'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys adolygiad o strwythurau rheoli gweithredol. Daw'r gwaith hwn i ben yn Chwarter 3, 2021-22. |

| Argymhelliad (blwyddyn) | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| **A5 (2019)**<br>Yn rhan o ddull ehangach y Bwrdd Iechyd o gynllunio’r gweithlu, dylid ceisio lleihau’r ddibyniaeth ar reolwyr interim allanol drwy adeiladu’r capasiti a’r gallu angenrheidiol o uwch-reolwyr yn y sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â thrawsnewid a newid gwasanaethau. | **Mae’r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Bydd y Strategaeth Gweithlu newydd yn defnyddio themâu o waith datblygu Cryfach Gyda’n Gilydd y sefydliad. Penodwyd yn sylweddol i uwch-swyddogaethau arwain allweddol yn y Tîm Gweithredol a’r Tîm Uwch Arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae defnyddio rheolwyr interim yn dal i fod yn her barhaus i’r Bwrdd iechyd. Mae’r Tîm Gweithredol wedi cymeradwyo model a rhaglen Adolygu’r Gwasanaeth/Gweithlu. Defnyddir hyn, er enghraifft, i adolygu Adrannau Brys fel sail ar gyfer llywio model staff newydd. Bydd allbwn yr adolygiadau yn llywio’r strategaeth a’r cynllun gweithlu newydd ar gyfer 2022-2025. |
| **A6 (2019)**<br>Cwblhau a chytuno ar y strwythur rheoli ar gyfer gwasanaethau acíwt. | **Mae’r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Mae’r strwythur rheoli acíwt wedi bod yn destun rhai newidiadau ychwanegol, ond gyda nifer o benodiadau allweddol diweddar. Mae’r Bwrdd Iechyd yn ystyried sut mae ei fodel gweithredu yn cysoni ag anghenion busnes, yn rhan o raglen Cryfach Gyda’n Gilydd. Nod y Bwrdd Iechyd yw datblygu cynllun cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn galendr. |
| **A2 (2020)** Sicrhau bod rhanddeiliaid yn ymgysylltu’n effeithiol wrth ddatblygu strategaeth glinigol ac unrhyw gynlluniau ar gyfer newid sylweddol i’r gwasanaethau. | **Mae’r cam gweithredu yn mynd rhagddo**<br>Mae’r gwaith o adnewyddu strategaeth Byw’n Iach, Aros yn Iach yn cynnwys ymgysylltu â’r cyhoedd, y staff a’r rhanddeiliaid. Bydd y Bwrdd Iechyd yn rhannu ac yn trafod canfyddiadau sy’n dod i’r amlwg â phartneriaid, rhanddeiliaid a’r rhai a gyfrannodd ym mis Tachwedd 2021. |

## Systemau sicrwydd

39 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i ymwreiddio ei drefniadau rheoli risgiau, ond oherwydd y pwysau cyson eithriadol ar wasanaethau, bydd angen iddo sicrhau bod ei drefniadau sicrhau ansawdd yn effeithiol o’r llawr i’r Bwrdd.**

## Rheoli risgiau

40 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau priodol i ymwreiddio ei ddull rheoli risgiau a'i fframwaith sicrwydd bwrdd.**

41 Fel y nodwyd yn ein hasesiad strwythuredig yn 2020, mae dull y Bwrdd Iechyd o reoli risgiau wedi newid drwy gyflwyno model tair haen[9]. Y nod oedd gweithredu'r strategaeth a'r trefniadau rheoli risgiau ategol newydd ym mis Hydref 2020, ond arweiniodd effaith y pandemig at beth oedi. Adolygodd y Bwrdd, a chytunodd ar rai diwygiadau ychwanegol i'r strategaeth rheoli risgiau ym mis Gorffennaf 2021, gan gynnwys cryfhau'r pwyslais ar barodrwydd i dderbyn risg, hyfforddiant staff newydd a threfniadau i sicrhau bod gwybodaeth am risgiau yn cael ei rhannu ar draws gwasanaethau ac adrannau. Rydym wedi gweld Aelodau Annibynnol yn herio'r trefniadau rheoli risgiau yn dda, gan adrodd ac effeithiolrwydd y camau gweithredu sydd ar waith er mwyn lliniaru'r risgiau.

42 Caiff risgiau sy'n ymwneud â'r pandemig eu hadolygu a'u cynnwys yn y gofrestr risgiau. O ystyried y sefyllfa ddeinamig COVID-19, mae aelodau'r Bwrdd yn cael sesiynau cyfarwyddo ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd ar y risgiau hynny. Yn gyffredinol, mae'r risgiau ar fframwaith sicrwydd y bwrdd a'r fframwaith rheoli risgiau yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o faterion allweddol y Bwrdd Iechyd a'r camau y mae'n eu cymryd i'w datrys nhw.

43 Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn gwneud cynnydd da, er nad yw'n gwbl aeddfed eto. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio defnyddio'r cyfle i adnewyddu strategaeth i ddatblygu amcanion corfforaethol cliriach. Dylai hyn ddarparu llwyfan i gryfhau'r fframwaith sicrwydd ymhellach. Mae'r bwrdd a'r pwyllgorau yn defnyddio'r fframwaith yn weithredol ac yn gyson, sy'n helpu i ganolbwyntio ar y risgiau strategol allweddol sy'n atal amcanion rhag cael eu cyflawni. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gynnal ei fframwaith sicrhau deddfwriaeth, gan adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a monitro sylfaenol. Fodd bynnag, bu'r cyfyngiadau capasiti dros y 18 mis diwethaf yn heriol ac efallai y bydd angen dull mwy hylaw sy'n seiliedig ar risgiau yn y dyfodol.

44 Mewn cysylltiad â sicrwydd mewnol ehangach, mae ein gwaith yn nodi:

- rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau mewnol a gyflawnir yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn ddigonol i alluogi pennaeth barn archwilio mewnol 'Rhesymol' yn rhan o'r adroddiad blynyddol;
- bod archwiliad clinigol yn mynd rhagddo, er y gallai pwysau sylweddol ar wasanaethau effeithio'n llawn ar gyflawniad y cynllun; a
- bod y rhaglen Gwrth-dwyll yn gwneud cynnydd da, er ein bod yn deall bod y lefelau adrodd ar dwyll yn is y llynedd o'u cymharu â'r lefelau cyn y pandemig.

[9] Mae'r broses o reoli risgiau ar dair haen yn adlewyrchu pa mor atebol yw'r gwaith o reoli yn haen 1 (lefel cyfarwyddwr), haen 2 (lefel is-adrannol), haen 3 (lefel y gwasanaeth neu brosiect), gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y risg.

## Sicrhau ansawdd a diogelwch[10]

45 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i sicrhau gwelliannau ychwanegol i'w drefniadau llywodraethu ansawdd.**

46 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd priodol ar ystod eang o faterion ansawdd a diogelwch y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio model y pedwar cwadrant niwed ac yn deall y pryderon uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n deillio o'r pandemig. Adlewyrchir y rhain yn yr adroddiad Ansawdd a Pherfformiad, yn y cofrestrau risg ac yn fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae agenda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn gynhwysfawr a chreffir arni yn dda. Yn ogystal â derbyn adroddiadau ansawdd rheolaidd, mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar feysydd penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwasanaethau Fasgwlaidd, Iechyd Meddwl ac Offthalmoleg, a'r gwersi a ddysgwyd o achosion COVID-19.

47 Yn rhan o adolygiad llywodraethu y Bwrdd Iechyd (**paragraff 28**), mae newidiadau i'r strwythur ansawdd corfforaethol a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod hydref 2021. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r canlynol:

- grŵp cyflawni Gweithredol ar gyfer gwella ansawdd;
- Grŵp Iechyd a Diogelwch strategol; a
- thanategu grwpiau Diogelwch Cleifion, Profiadau Cleifion, Effeithiolrwydd Clinigol ac Atal a Rheoli Heintiau.

48 Gallai'r strwythur newydd gymryd amser i'w ymwreiddio, ond dylai helpu i alluogi pwyslais penodol mewn meysydd ansawdd allweddol a gwella gwelededd o'r llawr i'r bwrdd. O ystyried y pwysau sydd ar y gwasanaethau ar hyn o bryd, bydd yn hanfodol cynnal pwyslais cryf ar ansawdd gweithredol ar draws pob adran.

## Olrhain y cynnydd o'i gymharu â'r argymhellion archwilio ac adolygu

49 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi parhau â'i ddull o olrhain, adolygu a herio yr ymateb i argymhellion.** Yn ystod y pandemig, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i dderbyn adroddiadau tracio ar y cynnydd o'i gymharu ag argymhellion allweddol a meysydd herio y bu'r cynnydd ynddynt yn gyfyngedig. Er bod nifer o argymhellion i'w gweithredu o hyd o Asesiadau Strwythuredig y blynyddoedd blaenorol, mae camau gweithredu yn parhau i fynd rhagddynt yn y meysydd hyn, ac mae'r ymateb brys i'r pandemig wedi effeithio ar yr amserlenni gweithredu. Cynhwysir yr wybodaeth ddiweddaraf yn **Arddangosion 2 a 3** yr adroddiad hwn.

[10] Oherwydd ein bod yn cynnal adolygiad ar wahân o'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd, rydym wedi cyfyngu ar y gwaith a wnaed gennym ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn rhan o'n hasesiad strwythuredig yn 2021. Bydd yr adolygiad llywodraethu ansawdd yn ystyried a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Byddwn yn adrodd ar ein canfyddiadau yn ddiweddarach yn 2021.

# Rheoli adnoddau ariannol

50 Ystyriodd ein gwaith berfformiad ariannol, cynlluniau, rheolaethau, a threfniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol. Canfuom fod **incwm ychwanegol ynghyd â gwella cynllunio ariannol yn cryfhau rhagolygon ariannol y Bwrdd Iechyd, ond bod risg y gallai cyllid cyfalaf cyfyngedig atal y modelau gofal cynaliadwy tymor hwy a adeiladwyd ac y darparwyd adnoddau ar eu cyfer yn y gogledd.**

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

51 Canfuom **er na fodlonodd y Bwrdd Iechyd ei ddwy brif ddyletswydd ariannol statudol, fod cymorth ariannol strategol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu i sicrhau cydbwysedd ariannol ar gyfer 2020-21.**

52 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cyflawni sefyllfa refeniw ariannol gytbwys ers sawl blwyddyn. Yn 2020-21, galluogodd y cyllid refeniw ariannol blynyddol, ynghyd â dyraniadau ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, i'r Bwrdd Iechyd fantoli ei wariant o fewn ei derfyn adnoddau refeniw. Cyflawnodd warged o £0.4 miliwn ar gostau gweithredu net o ychydig dros £1.8 biliwn. Roedd dwy ffrwd fwyaf arwyddocaol dyraniad refeniw ychwanegol Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyllid i dalu am gostau COVID-19, a chymorth ariannol strategol ychwanegol. Ar yr olaf, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol (ar y pryd) ei benderfyniad ym mis Tachwedd 2020 i lacio mesurau arbennig y Bwrdd Iechyd i ymyriad wedi'i dargedu. Roedd y cyhoeddiad hwn yn cynnwys pecyn cymorth ariannol o £297 miliwn dros gyfnod o 3½ blynedd y mae £40 miliwn y flwyddyn ohono'n benodol ar gyfer adferiad ariannol.

53 Cyfanswm costau COVID-19 y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-21 oedd £171.7 miliwn (**Arddangosyn 4**) ac fe'u talwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cwmpasu costau COVID-19 uniongyrchol, ond yr oedd hefyd yn cydnabod canlyniadau ariannol ehangach y pandemig, gan gynnwys:

- tangyflawni cynlluniau arbedion – cyflawnodd y Bwrdd Iechyd £18.4 miliwn o arbedion o'u cymharu â tharged o £45 miliwn, gan adael pwysau ariannol o £26.6 miliwn; a
- thanwariant o £20.4 miliwn ar wasanaethau a drefnwyd ymlaen llaw lle'r oedd y Bwrdd Iechyd yn disgwyl ariannu gwasanaethau nad oedd modd eu darparu.

**Arddangosyn 4: effaith ariannol COVID-19 yn 2020-21**

| Maes y gost | £ miliwn |
|---|---|
| Cost uniongyrchol COVID-19 (gan gynnwys costau Ysbytai Maes, Cyfarpar Diogelu Personol, Brechu, Profi, Olrhain a Diogelu, Staff) | 159.1 |
| Incwm a gollwyd | 10.5 |
| Arbedion nas cyflawnir | 26.6 |
| Tanwariant ar wasanaethau a drefnwyd ymlaen llaw (cost yr arbedion o'u cymharu â'r gyllideb wreiddiol) | (20.4) |
| Tanwariant arall o'i gymharu â'r gyllideb | (4.1) |
| **Cyfanswm y costau yn gysylltiedig â COVID-19** | **171.7** |

Ffynhonnell: Adroddiad cyllid Mis 12 i'r Bwrdd ym mis Mai 2021

## Cynlluniau ariannol

54 Canfuom fod **cynllunio ariannol yn gwella a bod y Bwrdd Iechyd yn deall ei risgiau ariannol, ond y gallai dyraniad cyfalaf ariannol cyfyngedig effeithio ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd gwasanaethau yn y tymor hwy.**

55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella o ran cynllunio ariannol, sy'n rhoi syniad da o wariant cyllidebol a chysylltiad cryfach rhwng buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau a'r gwelliannau a fwriedir na'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu strategaeth ariannol tymor hwy hefyd. Bydd angen i hyn nodi sut y bydd cyllid yn cefnogi'r broses o adfer gwasanaethau, a sut y gellir cyflawni gwasanaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hwy. Mae hyn yn enwedig o bwysig pan fydd dyraniadau ychwanegol sylweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19, y cymorth strategol ar gyfer ymyriad wedi'i dargedu, a'r cyllid adfer perfformiad yn lleihau.

56 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn amlinellu'r dyraniad refeniw sylfaenol ar gyfer 2021-22, sef £1,697 miliwn. Ar adeg y gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2021, roedd y cynllun hefyd yn rhagweld dyraniadau ychwanegol ar gyfer gwella perfformiad a oedd, o'u cyfuno ag elfen eleni o'r £297 miliwn o gymorth strategol, yn dod i gyfanswm o £91.5 miliwn. Mae'r cynllun yn nodi'n ddigonol ar lefel uchel sut y bydd y cyllid ychwanegol hwn gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wario yn ystod y flwyddyn. Gallai hyn helpu i lywio'r gwaith o asesu gwerth o'r buddsoddiad. Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith penodol yn ystod y flwyddyn ar y £297

miliwn ychwanegol o gymorth ariannol strategol ar gyfer y cyfnod o 3½ blynedd. Nododd y gwaith hwn:

- gynlluniau clir ar y cyfan ar gyfer sut y bydd yn gwario'r cyllid cymorth ariannol strategol y mae'n ei gael gan Lywodraeth Cymru;
- bod cynlluniau'n ystyried yr adnoddau sydd eu hangen yn briodol, ond bod angen paratoi achosion busnes yn gynharach yn y flwyddyn yn ogystal â heriau o ran capasiti'r gweithlu, ystadau a chaffael; a
- threfniadau datblygedig sydd ar waith ar gyfer monitro cynlluniau'n barhaus, ond hefyd yr angen i sicrhau bod y cyllid yn cyflawni ei fanteision bwriadedig.

57 Ym mis 5, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld cydbwysedd rhwng gwariant a'i ddyraniad adnoddau ar gyfer 2021-22. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld costau COVID-19 o £112.8 miliwn, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r gost yn llawn. Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i risgiau ariannol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys effaith trydedd don COVID-19 bosibl, tangyflawniad posibl o ran arbedion, y gallu i reoli twf mewn costau a galw a'i allu i sicrhau effeithlonrwydd drwy strategaeth glinigol a thrwy ailgynllunio llwybrau.

58 Gallai cyllid cyfalaf fod yn risg hefyd i'r Bwrdd Iechyd. Mae effaith barhaus COVID-19 yn cynyddu rhestrau aros yn sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynllun adfer sy'n cynnwys dewisiadau ar gyfer cynyddu ei gapasiti gan ddefnyddio canolfannau triniaeth rhanbarthol. Yn nodweddiadol, byddai capasiti ychwanegol ar gyfer ystadau yn cael ei ariannu drwy gyfalaf, ond mae pwysau mawr ar y cyllid cyfalaf sydd ar gael ledled Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio dulliau o gomisiynu gwasanaethau ychwanegol a reolir gan ddefnyddio cyllid refeniw. Gallai'r dull refeniw hwn helpu i ehangu capasiti gwasanaethau yn gyflym, ond gallai dulliau ariannu refeniw gyflwyno risgiau strategol ychwanegol hefyd, gan gynnwys:

- cynyddu'r ddibyniaeth ar ofal a drefnir ar gontractau allanol nad ydynt o reidrwydd yn darparu capasiti gwasanaeth i'r bwrdd iechyd y gellir ei gynnal yn y tymor hwy ar ôl i'r contractau ddod i ben.
- unrhyw gontractau allanol newydd sylweddol ar gyfer capasiti ychwanegol efallai y bydd angen cyllid hirdymor ar eu cyfer. Mae'n bosibl na fydd modd gwarantu'r incwm i gefnogi hyn os caiff ei ariannu o ddyraniadau blynyddol ychwanegol Llywodraeth Cymru yn hytrach na chyllidebau craidd.

59 Er y gallai'r cyfalaf sydd ar gael effeithio ar ddatblygiad capasiti gwasanaeth newydd, rydym wedi clywed hefyd y gallai cyllid cyfalaf cyfyngedig rwystro'r gallu i addasu'r ystad bresennol er mwyn helpu i wella llif cleifion ac effeithlonrwydd. Gallai hyn fod yn ffactor hefyd sy'n effeithio ar adferiad cynaliadwy ac effeithlon mewn safleoedd sydd eisoes yn bodoli. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol iawn o'r risgiau hyn ac mae'n archwilio dewisiadau a allai helpu i liniaru effaith cyllid cyfalaf cyfyngedig.

## Rheolaethau ariannol a rheolaethau mewnol ehangach

60 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn parhau i ganolbwyntio ar wella ei reolaethau ariannol mewn cysylltiad â gwariant COVID-19.**

61 Yn ein hadroddiad o asesiad strwythuredig 2020, canfuom fod rheolaethau ariannol allweddol wedi gweithredu drwy gydol y pandemig, a bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud rhagor o waith i ddarparu sicrwydd ar y rheolaethau. Gwnaethom dynnu sylw at brosesau clir y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2020 a oedd yn nodi trefniadau gwneud penderfyniadau, a pharhaodd terfynau awdurdod dirprwyedig i gael eu gorfodi ochr yn ochr ag olrhain a dadansoddi gwariant COVID-19. Ers asesiad y llynedd, mae'r bwrdd iechyd wedi ffurfio 'cell llywodraethu ariannol' ac wedi cynnal adolygiad o'i drefniadau llywodraethu COVID-19. Canfu'r adolygiad nifer o gryfderau, gan gynnwys rheolaethau ariannol COVID-19 a adeiladwyd o amgylch systemau ariannol presennol, creu canolfannau cost COVID-19 a chraffu ar wariant COVID-19. O'r gwelliannau sydd eu hangen, mae gwaith ar gynllunio Parhad Busnes a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo mewn Argyfwng yn parhau i fynd rhagddynt. Cyflwynwyd yr olaf i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2021 ar ffurf drafft, gyda'r bwriad o'i gymeradwyo yn ffurfiol yng nghyfarfod llawn nesaf y Bwrdd.

62 Mae'r pandemig wedi effeithio ar rai rheolaethau mewnol arferol ac mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cryfhau'r trefniadau:

- **rheoli polisïau** – mae'r Bwrdd Iechyd yn archwilio dewisiadau ar gyfer sicrhau capasiti ychwanegol i gryfhau ei ddull cyffredinol o reoli polisïau, ei reolaethau polisi, ac mae'n adolygu polisïau sydd wedi dyddio.
- cynyddodd y defnydd o **hepgoriadau tendr sengl** o 33 hepgoriad yn 2019-20 i 99 yn 2020-21. Roedd 43 o'r 99 hepgoriad hynny'n ymwneud â gwariant COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu un grŵp hepgor tendrau sy'n cymryd camau i leihau'r defnydd o hepgoriadau tendr sengl wrth symud ymlaen.
- **datganiadau buddiant** – ar gyfer 2020-21, cwblhawyd 58% o'r cyfanswm o oddeutu 1,100 o ddatganiadau buddiant a gwblhawyd y llynedd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella hyn ymhellach eleni.

63 Fel y nodwyd gennym y llynedd, cofnodir y defnydd o weithredoedd y Cadeirydd[11] yn ffurfiol yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Gallai pwysau brys a'r angen i wneud penderfyniadau cyflym er mwyn cefnogi adferiad olygu bod angen y llwybr cymeradwyo hwn yn y dyfodol. At ddibenion sicrwydd, gallai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnwys rhagor o fanylion am weithredoedd y Cadeirydd yn adroddiad cydymffurfiaeth cyllid y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, mae'n gadarnhaol bod y Bwrdd Iechyd wedi penderfynu trefnu cyfarfod bwrdd arbennig ar gyfer contract a

[11] Fel arfer, defnyddir gweithredoedd y Cadeirydd ar gyfer penderfyniadau brys a wneir y tu allan i un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

allai fod yn arwyddocaol y mae'n gwneud cynnydd arno ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid.

## Monitro ac adrodd

64 Canfuom fod **trefniadau adrodd ariannol yn rhoi trosolwg digonol ar y sefyllfa ariannol, y risgiau a'r rhagolygon a ragwelir.**

65 Mae adroddiadau cyllid yn darparu gwybodaeth ddigonol ac amserol am y sefyllfa ariannol, y perfformiad ariannol, yr arbedion cost a'r cynnydd o'i chymharu â'r rhaglen gyfalaf. Defnyddir adroddiadau ychwanegol sy'n mynd at wraidd meysydd gwariant penodol o bryd i'w gilydd i gefnogi dealltwriaeth a gwaith craffu. Pan fo contractau a chytundebau newydd neu ddiwygiedig sydd â goblygiad ariannol i'r Bwrdd Iechyd, mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cael ei hysbysu'n briodol ac mae'n darparu her briodol.

66 Fel yr amlygir trwy gydol yr adroddiad hwn, bydd y broses o adfer gwasanaethau yn heriol. Dylai gwella'r pwyslais ar effeithlonrwydd ariannol y gwasanaethau presennol helpu i sicrhau bod y capasiti craidd yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl gorau. Mae gan y Bwrdd Iechyd hanes o ganolbwyntio ar reoli costau ac osgoi costau. Er bod hyn wedi rhoi sicrwydd ar ei sefyllfa ariannol, nid yw wedi helpu'n arbennig i greu llwybrau gofal sy'n effeithlon yn ariannol. Dros y chwe mis diwethaf, rydym yn gweld pwyslais cynyddol ar werth, enillion buddsoddiadau ac effeithlonrwydd ar lefelau uwch yn y sefydliad. Mae hyn yn dod yn fwy gweladwy yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, yn enwedig mewn achosion busnes sy'n dod i'r amlwg ac mae'n ddatblygiad i'w groesawu. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried hefyd sut y gall roi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd a gwerth ariannol yn ei waith monitro ac adrodd ariannol ffurfiol (**Argymhelliad 1, 2021**).

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhelliad yr archwiliad

**Arddangosyn 6: ymateb y rheolwyr i asesiad strwythuredig 2021**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau ariannol**<br>A1 **Sicrhau pwyslais gwell ar effeithlonrwydd ariannol gwasanaethau mewn adroddiadau cyllid**. Gellid cyflawni hyn drwy adroddiadau cyfnodol neu thematig ar effeithlonrwydd ariannol sy'n mynd at wraidd y mater, drwy adrodd ar gynnydd mewn gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, neu'n rhan o adroddiadau ariannol arferol. | Mae'r Bwrdd Iechyd eisoes yn cynhyrchu data meincnodi cynhwysfawr ar wasanaethau clinigol, a defnyddir hyn i helpu i nodi cyfleoedd i gyflawni arbedion yn ogystal â mentrau i wella profiadau cleifion.<br><br>Rydym hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am drawsnewid (sy'n cynnwys prosiectau gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth a gwella gwasanaethau) i'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth yn rheolaidd bellach<br>Rydym wedi cynnwys 2 adroddiad sy'n mynd at wraidd y mater / cyfarfod i berfformiad adrannol ar gylch busnes y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. | Rhagfyr 2021 [cyflwynir yr adroddiadau cyntaf i'r Pwyllgor]<br><br>Rhagfyr 2021<br><br>Rhagfyr 2021<br><br>Ionawr 2022 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br><br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br><br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Mae'r broses achos busnes yn cael ei diweddaru a'i symleiddio a bydd yn cynnwys asesiad o'r canlynol:<br>• effeithlonrwydd cymharol y gwasanaeth penodol;<br>• y camau a ystyriwyd i wella'r effeithlonrwydd hwnnw cyn yr achos busnes.<br><br>Bydd y rhaglen sy'n ymwneud â llwybrau clinigol ac adolygiadau o'r gwasanaethau yn cynnwys asesiad o'r effeithlonrwydd ariannol a gweithredol cymharol a pha fanteision y gellir eu disgwyl o weithredu'r llwybr newydd. | Chwefror 2022 | Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol<br><br>Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.